

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 22 Medi, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, G.A. Cox, R. Crowley, V.P. Driscoll, G. John, Dr. I.J. Johnson, S. Sivagnanam a J.W. Thomas

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformio ac Adnoddau), L. Burnett (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio), B.T. Gray (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd); P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth), E. Williams (Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio) ac S.M. Hanks.

384 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

385 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf, 2021 fel cofnod cywir.

386 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

387 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BRO MORGANNWG 2020-21 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o'r Cabinet ar 19 Gorffennaf, 2021 i'r Pwyllgor fel yr oedd yn yr agenda.

Cyflwynodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes a'r adroddiad, a chyfleu ymddiheuriadau Mark Brace o Swyddfa Comisiynydd Heddlu De Cymru, Is-

Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), oedd yn methu bod yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'r eitem.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod yr adroddiad wedi ei gynhyrchu gan ddefnyddio Microsoft Sway am ail flwyddyn oedd yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos yn canolbwyntio ar weithgareddau'r BGC yn ogystal â'r sail tystiolaeth am gynllun lles. Yn ystod y flwyddyn, gweithiwyd yn gryf fel partneriaeth, yn enwedig ynghylch Profi Olrhain Amddiffyn, brechu a chefnogaeth gymunedol trwy Arwyr y Fro. Yr oedd gwaith i gryfhau'r berthynas gyda Chynghorau Tref a Chymuned yn parhau, a chynhaliwyd cyfarfod wedyn lle'r edrychwyd i mewn i raglen waith oedd yn canoli ar faterion o ddi-ddordeb i bawb, e.e., Statws Cyfeillgar i Oedran a Newid Hinsawdd.

Ers mis Gorffennaf, mae gwaith wedi cychwyn ar yr asesiad lles ac adroddir i'r BGC cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym Mai 2022.

Cafwyd ymateb da i'r arolwg a gynhaliwyd dros yr haf, gyda bron i 1,300 o ymatebion. Y mae'r swyddogion yn awr yn ystyried casglu ynghyd y themâu oedd yn dod drwedd o'r ymatebion, yn ogystal ag ystyried cynnal cyfres o weithdai gyda phartneriaid BGC dros y misoedd nesaf cyn cyhoeddi drafft o Asesiad Lles yn nes ymlaen yn yr hydref, a dod â'r Asesiad hwnnw i'r Pwyllgor hwn fel rhan o'r broses ymgynghori.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr. Johnson at y ffaith mai'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau yw'r prif Bwyllgor Craffu, a gofynnodd i ba raddau y gwnaed y Pwyllgorau Craffu eraill yn ymwybodol o'r gwaith fyddai wedi bod yn berthnasol i'w cylch gorchwyl. Gofynnodd hefyd a werthuswyd effaith y gwaith dros y ddwy flynedd a aeth heibio.

Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes y byddai Pwyllgorau eraill wedi bod yn ymwybodol o waith y BGC trwy adroddiadau chwarterol am berfformiad, yn ogystal â thrwy adroddiadau cyfoesi unigol. Byddai mwy o waith yn cael ei wneud ar y cyd i godi proffil mentrau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau BGC. O ran gwerthuso cynlluniau unigol, yr oedd yr Adroddiad Blynyddol yn ceisio gwerthuso perfformiad cynlluniau gyda golwg ar ddatblygu blaenoriaethau dros y cynllun 5-mllynedd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at 4 ffrwd waith blaenoriaeth y BGC ar dudalen 4 yr adroddiad, sy'n gofyn am gyfeirio'r rhain at eu Pwyllgorau Craffu perthnasol:

- Cyfeirio'r Cynllun Symud Mwy Bwyta'n Well at y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol, ac o bosib y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant.
- Taclo Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio.
- Prosiect Canfod Llwybrau – Bancio Amser i'w gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel.
- Prosiect Dysgu Sefydliadol – Gwella Ymwneud i'w gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau.

Holodd y Cadeirydd pryd y byddai modd cael yr adroddiadau hyn wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgorau hyn a'u hychwanegu at eu cynlluniau gwaith. Dywedodd y Prif Swyddog Craffu Democratig a Gwasanaethau ei bod yn bosib i'r Pwyllgor Craffu

Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i wneud argymhellion i'r Cabinet yn hyn o beth.

Yr oedd y Cynghorydd Sivagnanam eisiau bod yn glir pam nad adroddwyd cyn hyn i'r Pwyllgorau eraill. Cadarnhaodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes fod deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu bod Pwyllgor arweiniol a bod y Cabinet wedi cytuno mai'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fyddai'r Pwyllgor arweiniol, ond nad oedd dim i atal adroddiadau unigol rhag mynd i Bwyllgorau Craffu unigol ac adrodd yn ôl at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel y Pwyllgor arweiniol.

Wedi i'r Pwyllgor ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad,

ARGYMHELLIR

- (1) NODI'r adroddiad a'r cyfeiriad.
- (2) Y dylid gofyn i'r Cabinet ystyried argymhell y dylid cyfeirio 4 llif gwaith blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar dudalen 4 yr adroddiad at y Pwyllgorau Craffu priodol a ffurfio rhan o gynlluniau gwaith y Pwyllgorau.

Rheswm dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a chyfeirnod a thrafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn i'r Cabinet ystyried bod y ffrydiau gwaith â blaenoriaeth yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgorau Craffu priodol i'w hystyried.

388 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2021/22 (RG) –

Cyflwynodd yr adroddiad perfformiad gynnydd y Cyngor yn Chwarter 1 (1 Ebrill tan 30 Mehefin, 2021) tuag at gyrraedd ei ymrwymadau Cynllun Cyflwyno Blynyddol (2021/22) fel y maent wedi eu hasio ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol. Wrth gyflwyno'r adroddiad, rhoddodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes drosolwg i'r Pwyllgor mewn cyflwyniad PowerPoint. Yr oedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd pendant o ran cyflwyno ei ymrwymadau eleni o ran y Cynllun Cyflwyno Blynyddol (2021/22). Yr oedd y perfformiad hwn wedi cyfrannu at statws Gwyrdd cyffredinol i'r Cynllun yn Chwarter 1 (Q1).

Neilltuwyd statws perfformiad Gwyrdd i 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch1 i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Yr oedd hyn yn bositif, o gofio'r heriau cyson sy'n codi o'r pandemig.

O'r 7 gweithred a gafodd statws perfformiad Coch yn ystod y chwarter, yr oedd 29% (2) yn ganlyniad uniongyrchol i fesurau ail-flaenoriaethu'r gwasanaeth a wnaed mewn ymateb i effaith pandemig COVID-19. Yng nghyswllt y meysydd hyn, yr oedd gwaith yn ail-gychwyn fel rhan o gynlluniau a strategaeth adfer y Cyngor.

Crybwyllodd y cyflwyniad hefyd y cynnydd yng nghyswllt adferiad Coronafeirws, gan amlygu materion perthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor. Yr oedd y cyfoesiad hwn am adfer wedi Coronafeirws yn rhan o'r adrodd chwarterol am berfformiad er mwyn gwneud yn siŵr fod yr Aelodau yn cadw trosolwg o'r materion adfer fyddai'n cael effaith ar waith eu Pwyllgorau. O'r safbwynt hwn, gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r cynnydd hyd yma yng nghyswllt adferiad o Coronafeirws.

O'r 42 mesur perfformiad chwarterol oedd wedi asio ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd data am 34 mesur lle'r oedd statws perfformiad yn gymwys. Neilltuwyd statws perfformiad Gwyrdd i 50% (17), statws Oren i 17% (6) a statws Coch i 33% (11). O ran yr 11 mesur a gafodd statws perfformiad Coch yn ystod y chwarter, yr oedd COVID-19 wedi cyfrannu at 54% (6) a fethodd y targed.

Gofynnodd yr adroddiad hefyd i'r Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad a'r camau lliniaru y dylid eu cymryd i fynd i'r afael a meysydd lle mae tanberfformio. Wedi ystyried, argymhellwyd bod y Pwyllgor Craffu yn cyfeirio eu barn ac unrhyw argymhellion o'r Cabinet i ystyried.

Cyfeiriodd y Cyngorydd John at waith y Gweithgor Dementia a dweud, yng ngoleuni ei brofiad gyda'r pwnc, yr hoffai gyfrannu at eu gwaith os oedd modd.

Tynnodd y Cyngorydd Driscoll sylw at e-byst gan etholwyr y daeth ef yn ymwybodol ohonynt at C1V lle'r oedd ymatebion yn cymryd tair wythnos. Ymddiheurodd y Pennaeth Gwasanaeth am yr oedi oherwydd absenoldebau staff a phroblemau technegol, a dweud iddo gael ar ddeall mai'r e-bost hynaf oedd angen sylw yn ddyddiedig 17 Medi. Dywedodd ymhellach fod C1V yn cael eu cefnogi gan gydweithwyr yn AD i ymdrin â'r problemau.

Holodd y Cyngorydd Carroll a oedd angen logio ymholiadau gyda C1V neu ymdrin â hwy yn uniongyrchol gyda'r Meysydd Gwasanaeth. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth ei bod yn bwysig cyfeirio ymholiadau at C1V er mwyn i'r rhain gael eu logio a'u holrhain.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at baragraff 3.2.1 o Atodiad A, 'Beth wnaethom yn dda', a gofynnodd am fwy o wybodaeth am ddyddiad posib i gyflwyno Cam 3 yr achos busnes i Lywodraeth Cymru ac astudiaeth Cyfnewidfa Dociau'r Barri. Holodd ymhellach beth oedd ystyr agwedd canol trefi yn gyntaf at fanwerthu, o ran y system gynllunio.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth sylw at gais Beggars Pound, sef cais cynllunio a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru am ganiatâd cynllunio amlinellol i ddymchwel adeiladau sy'n bodoli eisoes a chodi gofod llawr Dosbarth B o hyd at 3,000 metr sgwâr. Yr oedd y cais yn cynnwys darparu tir i'r Cyngor er mwyn gallu gwella'r llwybr teithio llesol. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod a wnelo'r achos busnes Cam 3 a'r gyfnewidfa drafnidiaeth yn y Barri a gorsaf Dociau'r Barri. Y mae a wnelo'r agwedd canol trefi yn gyntaf â rhaglenni Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, a chytunodd y Pennaeth Gwasanaeth i roi gwybodaeth i'r Aelodau am hyn ynghylch targedu grantiau i wella manau cyhoeddus.

Dyweddod y Cadeirydd, wrth gyfeirio at Dudalen 21 y ddogfen ynghylch gwneud iawn am garbon a'r drefn torri gwair, y byddai'n ddiddorol mesur y manteision, e.e., mwy o fioamrywiaeth. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth mai Blaengynllun Gwaith Bioamrywiaeth y Cyngor oedd y mecanwaith i wneud hynny ac y byddai'n dosbarthu fersiwn ddiweddaraf y Cynllun hwnnw i Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth.

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at Dudalen 23 gan holi pryd y byddai'r Strategaeth Rheoli Gwastraff ar gael. Dywedwyd wrth y Cadeirydd y byddai Cabinet y Cyngor yn cael briffiad ym mis Hydref fyddai'n cynnwys cyfeiriad ymlaen at y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio. Ebrill 2022 oedd y dyddiad a ragwelwyd i roi'r Strategaeth ar waith.

Yn dilyn y trafodaethau yn y cyfarfod,

ARGYMHELLIR

(1) NODI'R canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blyneddol 2021/22 yn unol ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) NODI'R camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) NODI'R cynnydd sy'n cael ei wneud drwy Strategaeth Adfer a Chynlluniau Adfer Cyfarwyddiaethau'r Cyngor mewn ymateb i bandemig parhaus y coronafeirws.

Rheswm dros yr argymhellion

(1a2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Sicrhau bod aelodau'n parhau i oruchwylio'r materion adfer sy'n effeithio ar waith y Cyngor a'u Pwyllgor Craffu perthnasol.

389 POLISI GWERTHU GORFODEDIG (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o'r Cabinet ar 19 Gorffennaf, 2021 i'r Pwyllgor fel yr oedd yn yr agenda.

Dyweddod y Prif Swyddog Adfywio wrth y Pwyllgor fod defnyddio camau gorfodi, boed trwy ddeddfwriaeth Cynllunio, y Ddeddf Adeiladu neu ddeddfwriaeth iechyd yr amgylchedd, yn wastad yn ddewis olaf un, a bod camau gorfodi fel arfer yn ddull o ymwneud â pherchennog eiddo er mwyn cael canlyniad positif. Mae paragraff 2.7 yr adroddiad yn rhestru'r camau gwirio a chydbwyso fyddai'n cael eu rhoi ar waith cyn cyflwyno unrhyw achos ddefnyddio'r Polisi.

Diolchodd y Cynghorydd John i'r Prif Swyddog Adfywio am yr adroddiad manwl, a dweud ei fod yn hapus gyda'r adroddiad a'i argymhellion.

Holodd y Cynghorydd Carroll a oedd nifer o achosion i'w disgwyl yn flynyddol fyddai'n galw am ddefnyddio'r Polisi. Dywedodd y Prif Swyddog Adfywio, dros y 6 i 12 mis diwethaf, mai dim ond un eiddo a ddaeth dan y polisi hwn ac un eiddo posib, ond fod trafodaethau'n dal i ddigwydd gyda'r perchennogion. Dywedodd y swyddog, yn ei farn ef, mai nifer fechan iawn o adeiladau allai gael eu hystyried. Dywedodd y Cynghorydd Carroll eto, mai yn ei farn ef, cyhyd ag mai'r cam olaf un fyddai'r Polisi, a bod dulliau eraill yn cael eu defnyddio, y byddai'n hapus i gadarnhau'r argymhellion.

Holodd y Cynghorydd Driscoll, petai arwystl ar yr eiddo eisoes, a fyddai'r mater yn mynd rhagddo, a fyddai ail arwystl yn cael ei wneud neu a fyddai'r Cyngor yn gorfodi gwerthiant? Wrth gyfeirio at Atodiad 1, dywedodd mai'r argraff a roddwyd oedd bod swyddogion yn chwilio am eiddo gwag, a holodd a fyddai cost am amser y swyddogion, a fyddai'r elw yn mynd i'r perchennog a phe na fyddai modd cael gafael ar y perchennog, beth fyddai'n digwydd i'r elw?

Dywedodd y Prif Swyddog fod paragraffau 4.2 a 4.5 adroddiad y Cabinet yn cyfeirio at y materion hyn, gan ddweud y byddai modd adennill cost amser swyddogion, gan gynnwys costau cyfreithiol, mesur tir, marchnata ac amser swyddogion dan gostau gweinyddol. O ran arwystlon cyfreithiol, byddai pob achos yn wahanol oherwydd cyflwr yr eiddo, lle'r ydoedd, y prisiad, etc., ac felly byddai angen gwybod y manylion hynny.

Yng nghyswllt ymholiad pellach gan y Cynghorydd Driscoll ynglŷn â dod â 10% o bob eiddo gwag yn ôl i ddefnydd preswyl, dywedodd y Prif Swyddog fod arolwg blynyddol o holl anheddau sector preifat gwag y sir, ac ar gyfartaledd fod 800 annedd sector preifat gwag ym Mro Morgannwg.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn teimlo y cafwyd dadl adeiladol a bod yr Aelodau wedi holi cwestiynau da, ac yn ei farn ef, yr oedd y polisi'n un ac yn hen bryd ei gael.

Wedi i'r Pwyllgor ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad a chytuno â'r polisi a sylwadau'r Cadeirydd,

ARGYMHELLWYD - Y dylid nodi'r adroddiad a'r cyfeirnod.

Rheswm dros yr argymhellion

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a chyfeirnod a thrafodaethau yn y cyfarfod.

390 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR REOLAU ETHOLIADAU LLEOL (PRIF ARDALOEDD) (CYMRU) 2021 DRAFFT A RHEOLAU ETHOLIADAU LLEOL (CYMUNEDAU) (CYMRU) 2021 DRAFFT. (RG) –

Wrth gyflwyno'r adroddiad fel un cyn mynd at y Cabinet ar gyfer Craffu, cyfeiriodd y Swyddog Canlyniadau (SC) a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol at yr ymgynghoriad oedd ymlaen gan Lywodraeth Cymru ynghylch y drafft o Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardalodedd) (Cymru) 2021 a'r drafft o Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 ac a osodir allan yn Atodiad A, ymateb drafft i'r ymgynghoriad.

Tynnodd y SC sylw at y Crynodeb Gweithredol a'r newidiadau arfaethedig allweddol i'r Rheolau sy'n llywodraethu Etholiadau Prif Gyngorau a Chyngorau Tref / Cymuned (CT/C) oedd yn ymwneud yn benodol â'r canlynol:

- pwerau galluogi i'r SC gynnig darpariaethau ar-lein i gael a chyflwyno papurau enwebu;
- mynnu hunan-enwebu gan Ymgeiswyr am Etholiadau Prif Gyngorau a CT/C;
- ehangu'r darpariaethau ynghylch disgrifiadau y gall Ymgeisydd ddefnyddio ar y papur enwebu;
- caniatáu rhoi "Wales", "Welsh", "Cymru" neu "Cymreig" cyn neu ar ôl enw neu ddisgrifiad plaid wleidyddol;
- cyflwyno gofyniad i lenwi ffurflen cyfeiriad cartref gyda'r dewis o beidio â gwneud cyfeiriad cartref yn gyhoeddus na'i gyhoeddi ar y papurau pleidleisio;
- y gofyniad i'r Ymgeisydd ddatgan ar y papurau enwebu os yw/neu y bu yn aelod o blaid wleidyddol gofrestredig yn y 12 mis diwethaf (ar wahân i'r blaid yr oedd yn ceisio sefyll drosti yn yr Etholiad dan sylw);
- ehangu'r dewisiadau ynghylch enwau a ddefnyddir yn gyffredin;
- caniatáu, i Etholiadau Prif Gyngorau yn unig, y dewis i Ymgeiswyr ddarparu datganiad personol, a threfniadau i'w cyhoeddi gan y Swyddog Canlyniadau.

Tynnodd y SC sylw hefyd at ddau bwnc penodol, yn gyntaf yng Nghwestiwn 2 a'r angen am brosesau a gweithdrefnau cadarn ynghyd â llwyfan TGCh sefydlog, ac o ddewis, porthol a ddarperir yn ganolog, o ystyried y risgiau posib o fethiant systemau yng nghyd-destun terfyn amser statudol llym ar gyfer derbyn enwebiadau; a Chwestiwn 9 ynghylch datganiadau personol, yn dweud wrth yr Aelodau am yr awgrym fod angen mesurau ychwanegol tebyg i'r rhai yng Ngorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throsedd 2012 a'r gwrthdaro posib o ddefnyddio gwefan y Cyngor i gyhoeddi datganiadau personol yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad a'r ddarpariaeth statudol cysylltiedig a amlygwyd hefyd. Yr oedd yr Arweinydd hefyd wedi rhannu pwynt ychwanegol gyda'r SC parthed Cwestiwn 11, sef y dylai'r Rheolau fynnu bod unigolion sy'n sefyll etholiad i fod ar y Gofrestr Etholwyr lle maent yn byw; byddai hyn yn helpu i gadarnhau pwy ydynt.

Yn ystod y drafodaeth, holodd y Cyngorydd Thomas a fyddai'r darpariaethau newydd yn golygu na fyddai angen deg llofnod bellach ar y papur enwebu, fel yr oedd angen yn flaenorol, a chadarnhaodd y SC fod hyn yn gywir. Yn dilyn ymholiad gan y Cadeirydd ynghylch y rheol 3 milltir, dywedodd y SC y byddai'r meini prawf cymhwyster presennol yn dal yn gymwys, gan nodi fod a wnelo'r rheol 3 milltir ag enwebiadau i CT/C.

Mynegodd y Cyngorydd Carroll bryder ynghylch darparu datganiadau am aelodaeth pleidiau gan mai ei farn bersonol ef oedd bod hyn yn gwneud CT/C yn wleidyddol, nad oedd yn briodol yn ei farn ef. Fodd bynnag, anghytunodd y Cyngorydd Sivagnanam â'r farn hon, gan ddweud ei bod yn ystyried yn bwysig fod gan aelodau'r cyhoedd syniad o gefndir gwleidyddol rhywun. Ategodd y Cyngorydd John sylwadau'r Cyngorydd Sivagnanam.

Dyweddod y Cynghorydd King, gyda chaniatâd i siarad, ei fod yn cefnogi barn y Cynghorydd Carroll am annibyniaeth fel cynrychiolydd TCC ond yr oedd yn deall pam y gwnaed y ddarpariaeth.

Dyweddod y SC y gallai ymgeisydd ddal i sefyll fel Aelod annibynnol ond y byddai gofyniad i ddatgan ymlyniad i blaid.

Parthed y ddarpariaeth am ddatganiadau personol, ceisiodd y Cadeirydd farn y Pwyllgor am hyn. Dyweddod y SC ei bod yn ystyried bod angen mwy o ganllawiau ac uniondeb, ac y byddai gwersi o Orchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throsedd 2012 yn help yma. Yr oedd y Cadeirydd yn meddwl, o safbwynt cydraddoldeb, a ellid rhoi cefnogaeth i Ymgeiswyr i ysgrifennu / teipio datganiadau personol, gyda'r SC yn dweud y bydd ymholiadau'n cael eu gwneud i ganfod at ba sefydliadau y gellid cyfeirio ymgeiswyr.

Yn dilyn pleidlais i weld a oedd yr Aelodau yn cytuno'r dewis o ddatganiad personol yn cael ei ddarparu gan ymgeiswyr i etholiadau Prif Gyngorau,

ARGYMHELLWYD - Bod y Cabinet yn cael gwybod am gytundeb y Pwyllgor i'r opsiwn o gael datganiad personol gan ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Prif Gyngor a thrafodaethau'r Pwyllgor yn y cyfarfod.

Rheswm dros yr argymhellion

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

391 DOLYGIAD O STRWYTHUR TÎM ARWEINYDDIAETH YR UWCH WEITHREDWYR (CYF) –

Yn wyneb y gwrthdaro buddiannau am gynnwys yr adroddiad, gadawodd Aelodau'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth y cyfarfod pan oedd y mater dan ystyriaeth. Gosodd yr Arweinydd gefndir adroddiad yr adolygiad, gan ddweud ei fod yn falch fod Arweinwyr yr holl Grwpiau wedi cytuno ei bod yn amser cynnal adolygiad. Gosodwyd yr adroddiad ar yr agenda yng ngoleuni'r ffaith fod y mater i fod i'w ystyried gan y Cyngor Llawn ar 28 Medi, 2021 ac yr oedd y cyfeirio o'r Cabinet ar 13 Medi, 2021, nad oedd ar gael adeg anfon yr agenda allan, wedi ei ddsbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

Yn dilyn proses gaffael wrthrychol, comisiynwyd Steve James, yr Ymgynghorydd AD allanol gan Gymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE) i gynnal adolygiad o strwythur Uwch-Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor. Cyflwynodd yr ymgynghorydd yr adroddiad ar ffurf cyflwyniad PowerPoint oedd yn rhoi trosolwg o'r cynnwys, gyda manylion y newidiadau strwythurol angenrheidiol i adeiladu'r gallu ar lefel uwch i yrru trawsnewidiadau i gyflwyno gwasanaethau. Yr oedd angen hyn i ateb gofynion y Cynllun Corfforaethol, sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth weithredol briodol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sydd yn deilio o'r agenda cenedlaethol a rhanbarthol, a datblygu cyfeiriad arweiniol fyddai'n sail i strwythur sefydliadol am 2022/23 a thu hwnt er mwyn gwreiddio'r gallu i weithredu'r model newydd yn llawn a chyflwyno gwasanaethau fel y rhagwelir yn y Cynllun Corfforaethol.

I gloi, dywedodd yr ymgynghorydd fod yr adolygiad wedi cadarnhau fod Cyngor y Fro o fewn ei gyllideb ac o safon uchel o ran cyflwyno gwasanaethau; fodd bynnag, o ystyried bod terfyn ar adnoddau, ac o gofio'r pwysau ar y Cyngor i gwrdd â galw cynyddol am wasanaethau ac i ymateb i gyfleoedd cenedlaethol a rhanbarthol am dwf a gweithio mewn partneriaeth, nid oedd modd ateb y rhain o'r strwythur arweinyddiaeth bresennol.

Yr oedd manylion am y strwythur Uwch-Arweinyddiaeth presennol a'r strwythur a argymhellwyd yn Atodiadau 4 a 5 i'r adroddiad.

Yn dilyn y cyflwyniad, cyflwynodd y Cadeirydd aelod o'r cyhoedd a oedd wedi cofrestru i siarad ar y mater i wneud sylwadau.

Diolchodd K. Medhurst i'r Cadeirydd am y cyfle i siarad, a chychwynnodd trwy ddweud, ym Mai, fod y Pennaeth Adnoddau Dynol ar y cyd â'r Arweinydd wedi comisiynu Solace in Business Cyf. wedi cynnal adolygiad o strwythur uwch-reolaeth y Cyngor. Ym mis Awst, derbyniodd Solace in Business Ltd 2 daliad o gronfa gyffredinol y Cyngor, cyfanswm o £7,930. Gofynnodd Mrs. Medhurst i'r Pwyllgor Craffu gadarnhau a oedd y taliadau hyn ar gyfer yr Adolygiad ac a oeddent yn ateb meini prawf 'gwerth gorau' a holi a fyddai Solace in Business Cyf yn gwneud mwy o waith i'r Cyngor ynghylch newid y drefn uwch-reoli. Yr oedd y Rheolwr-Gyfarwyddwr presennol wedi bod yn ei swydd ers Mai 2015 ac fe'i penodwyd yn unfrydol gan y Pwyllgor Apwyntiadau Uwch-Reolwyr i swydd a hysbysebwyd yn gyhoeddus. Cefnogwyd y Pwyllgor gan yr ymgynghorwyr allanol Solace Enterprises Cyf. Ers mis Tachwedd 2018 dywedodd y bu'r Rheolwr-Gyfarwyddwr yn Gadeirydd cangen Cymru o Gymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-Reolwyr Awdurdodau Lleol (Grŵp Solace) Cyf. - rhiant-gwmni Solace in Business Cyf. Solace in Business Cyf. oedd y cwmni a olynodd Solace Enterprises Cyf. Ar sail y ffeithiau hyn, dywedodd Mrs. Medhurst fod ganddi "bryderon ynghylch a oedd penodi Solace in Business Cyf. i gynnal yr Adolygiad yn wirioneddol wrthrychol fel y datgenir ym mharagraff [1.1] yr Adroddiad i'r Cabinet."

Wrth gyfeirio yn benodol at yr adroddiad, crybwyllodd Mrs. Medhurst y teitl 'Swyddog Cyfrifol' i'r ymgynghorwyr AD, gan ddweud nad oedd yn Swyddog Cyngor. Yr oedd y dogfennau wedi eu paratoi gan ffynhonnell allanol, a dywedwyd yn wastad wrthi eu bod wedi eu hatodi neu eu dangos fel dolen i 'Adroddiad y Swyddog Cyfrifol'. Gofynnodd Mrs. Medhurst i'r Pwyllgor Craffu ystyried a oedd hyn yn gamddefnydd o'r broses ddemocrataidd i "guddio" ymwneud Solace in Business Cyf., cwmni 'elw i bwrpas', oherwydd dywedwyd nad oedd cyfeiriad yn yr Adroddiad at y cwmni. Dywedodd Mrs. Medhurst hefyd, parthed paragraff [4.13] o'r Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu, fod angen craffu'n fanwl ar y sylw 'Gwnaed yn glir na fydd angen hysbysebu'r swydd hon oherwydd bod deiliad presennol y swydd eisoes wedi ei ddynodi fel Pennaeth Gwasanaeth Taledig'. Gorffennodd Mrs. Medhurst trwy ddweud "pw y bynnag a benodir i swyddi newydd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Lle a Chyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yna fel mater o gyfraith, rhaid eu penodi 'ar eu haeddiant'. Petai unrhyw un o'r uwch-reolwyr presennol yn destun camau disgyblu neu honiadau o gamymddwyn sydd heb eu datrys oherwydd bod y Pwyllgor Apeliadau neu'r Pwyllgor Ymchwilio naill ai heb ymgynnull neu heb eto gwblhau eu trafodaethau ar yr achos, yna yn amlwg ni ellir ystyried y cyfryw uwch-reolwr ar gyfer

swydd sydd newydd ei chreu 'ar haeddiant' oni fydd a hyd nes y bydd ei enw wedi'i glirio".

Yn dilyn sylwadau Mrs. Medhurst, ac wedi diolch iddi, rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Aelodau'r Pwyllgor holi cwestiynau a thrafod yr adroddiad.

Manteisiodd y Cynghorydd Carroll ar y cyfle i ddiolch i'r ymgynghorydd am gyfle i ystyried yr adolygiad mewn sesiynau eraill gydag Arweinyddion y Grwpiau, gan gydnabod y ddarpariaeth statudol mewn deddfwriaeth i'r Penaneth Gwasanaeth Taledig gymryd teitl y Prif Weithredwr. Fodd bynnag, yr oedd ganddo bryderon am gyfiawnhau cost dwy swydd Cyfarwyddwr, sef Adnoddau Corfforaethol a Lle, i'r cyhoedd.

Yn ei ymateb, dywedodd yr ymgynghorydd fod yr adroddiad yn gosod allan ei ganfyddiadau o ran y briff a ddarparwyd i gwrdd ag amcanion y Cynllun Corfforaethol, uchelgeisiau ehangach y Cyngor a risgiau posib strwythur cymharol wastad yn y dyfodol i gyflwyno materion o'r fath. Yr oedd y strwythur felly wedi ei gyflwyno fel cyfle buddsoddi i sicrhau cyflwyno a lliniaru risg.

Holodd y Cynghorydd John yr ymgynghorydd a oedd y Cyngor, yn ei farn ef, wedi gwneud y penderfyniad anghywir yn y blynyddoedd blaenorol trwy wneud i ffwrdd â rôl y Prif Weithredwr ac ymdrin ag arbedion yr oedd yn rhaid i'r Awdurdod eu gwneud. Dywedodd yr ymgynghorydd fod Cynghorau yng Nghymru a Lloegr bryd hynny yn ymateb i anghenion brys a sylweddol yng nghyd-destun cyllidebau oedd yn crebachu a blaenoriaethau'r gwasanaeth bryd hynny. Dywedodd mai'r pwnc yn awr oedd gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gyflawni'r uchelgeisiau yn y Cynllun Corfforaethol y byddai'r ddwy swydd newydd yn helpu i'w cyflawni.

Dywedodd y Cynghorydd Moore fod synopsis wedi ei wneud cyn ystyried adolygiad, i weld lle'r oedd y Cyngor, sut y dylai'r Cyngor symud ymlaen, o gadw deddfwriaeth mewn cof, effaith Covid 19 ac adfer ohono, a rhoi cyfle i ail-feddwl beth oedd ei angen er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yr Awdurdod gorau yng Nghymru.

Wedi cael caniatâd i siarad, dywedodd y Cynghorydd Burnett ei bod yn dal yn uchelgeisiol i'r Cyngor, ond ei bod yn gwerthfawrogi'r hyn yr oedd y Cyngor wedi gofyn i'w swyddogion wneud o ganlyniad i'r pandemig, er bod hynny braidd yn ormod yn ei barn hi. Yr oedd rôl y Prif Weithredwr yn ofyniad cyfreithiol yr oedd yn rhaid i'r Cyngor ymdrin ag ef, ac yr oedd angen i'r Cyngor hefyd edrych yn strategol ar Le at y dyfodol, a sut y byddai'r cyhoedd am i'r Fro edrych.

Dywedodd y Cynghorydd Moore, wrth gyfeirio at swydd y Prif Weithredwr, ei fod wedi cymryd cyngor gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag a oedd angen hysbysebu swydd y Prif Weithredwr. Y cyngor a gafodd oedd nad oedd rhaid gwneud hyn, gan mai'r Prif Weithredwr oedd y Penaneth Gwasanaeth Taledig, sef y Rheolwr-Gyfarwyddwr. Er hynny, byddai angen hysbysebu swydd y ddau Gyfarwyddwr yn agored.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod y Cyngor yn wir yn uchelgeisiol ond na allai gyflawni'r hyn yr oedd angen i'r Cyngor wneud at y dyfodol gyda strwythur rheoli

denau. Argymhellodd y Cyngorydd Sivagnanam hefyd y dylid gofyn i'r Cabinet nodi'r sylwadau a wnaeth Mrs. Medhurst.

Wrth gyfeirio at y trafodaethau blaenorol ynghylch yr eitem am y CBC, dywedodd y Cyngorydd Thomas fod llywodraeth leol yn newid a'i fod yn hapus i gefnogi'r adroddiad.

Ceisiodd y Cyngorydd Driscoll gadarnhad ynghylch faint o Gynghorau yng Nghymru oedd â strwythur tebyg i'r hyn a gynigir. Cyfeiriodd yr ymgynghorydd at nifer o Gynghorau yng Nghymru, gan gynnwys Caerdydd ac Abertawe, oedd yn gweithredu gyda rolau cyfarwyddwyr fel y rhai a gynigir yn y strwythur arfaethedig.

Yr oedd y Cadeirydd, gan gadw mewn cof y ffaith fod yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Cyngor ar ddydd Mawrth, 28 Medi 2021, am geisio barn yr Aelodau am argymhellion y Cabinet. Yr oedd pawb yn cytuno ac eithrio am y Cyngorwyr Carroll a Driscoll, oedd am i'w barn gael ei gofnodi yn y cofnodion na allent gefnogi dwy swydd newydd y Cyfarwyddwyr a nodwyd yn yr adroddiad, felly

ARGYMHELLWYD - DERBYN adroddiad y Cabinet, y dylid gofyn i'r Cabinet fyfyrion ar bryderon Mrs. Medhurst fel yr amlinellir uchod a bod barn y Pwyllgor hefyd yn cael ei hanfon at y Cyngor Llawn ar gyfer y cyfarfod ar 28 Medi, 2021 yn ôl cais y Cabinet.

Rheswm dros yr argymhellion

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, y sylwadau a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

392 MATER Y BYDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU YN BRYD -

ARGYMHELLWYD - FOD y mater canlynol, yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan y pennawd munud.

393 YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR Y CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL: CANLLAWIAU STATUDOL DRAFFT **(Brys oherwydd yr angen bod angen i ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad fod gyda Llywodraeth Cymru erbyn 4 Hydref 2021 yn hytrach na 28 Medi 2021)**

Roedd y Cadeirydd wedi gosod y mater ar yr agenda fel eitem frys i'w hystyried gan y Pwyllgor, a dywedodd y Swyddog Monitro mai'r terfyn amser am ymateb i'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru oedd 4 Hydref, 2021 yn hytrach na 28 Medi, 2021. Creodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fframwaith ar gyfer mecanwaith cyson i gydweithredu'n rhanbarthol rhwng llywodraeth leol, sef Cydbwyllgorau Corfforaethol (CBC) a gwneud darpariaeth i sefydlu CBC trwy Reoliadau.

Bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gyflwyno rheoliadau a chanllawiau i gyd-fynd â chyflwyno CBC dros y flwyddyn a aeth heibio, ac yr oedd yr adroddiad eisiau cadarnhad gan y Cabinet o ymateb y Cyngor (yn Atodiad A i'r adroddiad) i'r

ymgyngoriad am y canllawiau oedd yn cefnogi sefydlu'r pedwar CBC sydd yn gyrrff ar wahân. Tynnodd y ddogfen sylw at yr egwyddorion allweddol oedd yn sail i ddatblygiad y canllaw. Yr oedd ymgyngori ar ddeddfwriaeth bellach am weithredu'r CBC a'i swyddogaethau ar y gweill ar gyfer hydref 2021, a byddai ymgyngoriad pellach yng ngwanwyn 2022 yn ymdrin ag unrhyw ddarpariaethau pellach y gallai CBC fod eu hangen ond oedd yn annhebygol o fod eu hangen pan fyddent yn dechrau cyflawni ei swyddogaethau. Byddai adroddiadau pellach yn dod i'r Cabinet yn y man.

Dywedodd y Cadeirydd mai un o'r pryderon oedd ganddo oedd ynghylch y broses ddemocrataidd a'r angen i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol ar y Pwyllgorau gan nad oeddent yn gyrrff oedd yn cael eu hethol yn uniongyrchol ac y buasant yn ymdrin â materion o bwys. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Arweinydd a oedd ganddo unrhyw fanylion pellach y gallai eu rhannu am y cynigion a sut y buasant yn gweithio o ran y swyddogaeth Craffu. Atebodd yr Arweinydd y byddai angen ymdrin â hyn yn nhermau Craffu gan y byddai angen mecanwaith i adrodd yn ôl i'r Awdurdodau Lleol, ac nad oedd y manylion yn hysbys eto sut y buasai'r CBC yn gweithredu'n llawn. Barn y Swyddog Monitro oedd ei bod yn bwysig codi rôl Craffu, y cyfeiriwyd at hyn yn y drafft o ymateb a osodir allan yn Atodiad A, ac y byddai'n well gan y swyddogion hefyd weld gwreiddio'r rôl hon yn y ddeddfwriaeth.

Ystyriodd y Cynghorydd Thomas, er bod nifer o gwestiynau ynghylch manylion y modd y buasant yn gweithio, fod CBC yn awr wedi eu gwreiddio mewn deddfwriaeth. Dywedodd y Cynghorydd King, gan ategu sylwadau'r Arweinydd, ei fod ef hefyd o'r farn y byddai CBC mewn gwell sefyllfa i gyflwyno'r gwasanaethau oedd eu hangen.

Wrth nodi y byddai cyfoesiadau pellach yn cael eu rhoi ar y mater yn y man, ac nad oedd neb yn anghytuno â'r ymateb,

ARGYMHELLWYD - GOFYN i'r Cabinet hwnnw ystyried yn yr ymateb i farn y Pwyllgor Craffu mewn perthynas â darparu'n ddigonol ar gyfer rôl y Pwyllgor Craffu ar Gydbwyllgorau Corfforaethol.

Rheswm dros yr argymhellion

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r ymateb yn Atodiad A.